**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Rhagfyr 2019

Dear John,

**Cynigion i wella darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n darparu ar gyfer newidiadau i drefniadau llywodraethu gweithredol mewn prif gynghorau**

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi lansio ymgynghoriad sy'n cynnig gwelliannau i ddarpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Leol 2000* a *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* sy'n galluogi newidiadau i drefniadau llywodraethu gweithredol prif gynghorau.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai deisebau ar gyfer refferenda i newid trefniadau llywodraethu gweithredol gael eu cyflwyno o leiaf ddeunaw mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i unrhyw refferendwm gael ei gynnal a byddai'n galluogi unrhyw etholiad ar gyfer maer i gael ei gynnal ar yr un pryd â'r gyfres nesaf o etholiadau cyffredin. Byddai newid yr amserlenni hyn yn cyfyngu ar effaith y newidiadau niferus i drefniadau gweithredol mewn cyfnod gweddol fyr, newidiadau a fyddai'n siŵr o darfu. Felly, byddai'r dyddiad terfyn hwn hefyd yn berthnasol i ffyrdd eraill o sbarduno refferendwm fel gorchymyn neu gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru neu benderfyniad gan y prif gyngor.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnig na fydd modd gwneud rhagor o newidiadau i drefniadau gweithredol prif gyngor, pan fo'r trefniadau hynny eisoes wedi cael eu newid, nes bod dau gylch etholiadol wedi'u cwblhau.

Fy mwriad yw bwrw ymlaen â'r darpariaethau hyn trwy gyfrwng gwelliannau Cyfnod 2 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Rwyf hefyd yn chwilio am opsiynau ar gyfer diweddaru rhai o'r rheoliadau mewn perthynas â deisebau fel caniatáu e-ddeisebau, hysbysiadau ar-lein ar gyfer deisebau ac ystyried a ddylid diwygio'r trothwy sy'n ofynnol ar gyfer llofnodion i ddeisebau ar gyfer maer sy'n sbarduno refferendwm.

Mae’r ymgynghoriad, a fydd yn rhedeg tan 27 Chwefror 2020, yn disgrifio’n fanylach yr hyn yr ydym yn cynnig ei wneud, gan amlinellu ein rhesymau.

Dyma gam cyntaf ymgynghoriad dau gam. Rwyf yn bwriadu ymgynghori ar welliannau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth, gan ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad hwn.

Darperir y ddogfen ymgynghori i helpu â gwaith y Pwyllgor o graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at roi rhagor o gymorth i’r Pwyllgor â’i waith o graffu ar y Bil.



**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.